

Nyth

Adroddiad Blynyddol

2016 – 2017

Rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru
Part of the Welsh Government Warm Homes programme

Nyth Nest
Gwneud Cymru'n Glyd
Making Wales Cosy

Cartrefi Clyd
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Warm Homes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagair y Gweinidog

Mae'r adroddiad yn cynnwys amrywiaeth eang o gyflawniadau, gan gyfuno cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni domestig a gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chreu swyddi a mynd i'r afael â thlodi.

Yn 2016/17, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £19.5m ar gyfer Nyth, un o'n cynlluniau effeithlonrwydd ynni blaenllaw. Mae'r cyllid hwn wedi cefnogi dau faes gweithgaredd. Mae'r maes cyntaf yn darparu gwasanaeth cyngor a chymorth ynni pen blaen i unrhyw ddeiliad tŷ sy'n byw yng Nghymru ac sy'n ffonio llinell gymorth Nyth. Mae'r ail faes yn darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim ar gyfer pobl incwm isel sy'n agored i niwed, sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd ac sy'n bodloni meini prawf cymhwyso Nyth.

Yn ogystal â chyllid gwerth £19.5m gan Lywodraeth Cymru, mae Nyth wedi denu £3.9m yn rhagor o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni. Mae hyn wedi helpu mwy o aelwydydd incwm isel yng Nghymru i dderbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim.

Mae Nyth hefyd wedi parhau i gyfrannu at greu swyddi a thwf yng Nghymru. Ers i'r cynllun ddechrau yn 2011, mae'r holl osodiadau wedi cael eu cynnal gan fusnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac mae 190 o gyfleoedd wedi cael eu creu gan gynnwys swyddi, prentisiaethau a hyfforddiant.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd dros 13,300 o ddeiliaid tai gyngor a chymorth ynni, gan gynnwys atgyfeiriadau at wasanaethau Trydydd Parti, megis Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau, er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o incwm. Mae hyn yn dod â chyfanswm yr aelwydydd sydd wedi cael cyngor a chymorth ynni i dros 90,000 yn ystod y chwe blynedd mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg.

Mae Nyth wedi dangos ei lwyddiant o ran cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf. Yn 2016/17, cafodd dros 5,500 o aelwydydd incwm isel welliannau effeithlonrwydd ynni, gan ddod â chyfanswm nifer yr aelwydydd o'r fath sydd wedi cael budd o'r cynllun ers iddo ddechrau i dros 29,000. Mae'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni am ddim hyn yn helpu i wneud cartrefi pobl yn gynhesach ac yn cryfhau gwydnwch deiliaid tai i gynnydd mewn prisiau ynni yn y dyfodol.

Mae tystiolaeth ddiweddar wedi dangos bod gwneud cartrefi yn gynhesach hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles rhai o'r aelwydydd mwyaf agored i niwed yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyd-ariannu prosiect ymchwil tair blynedd, sy'n cynnwys Prifysgol Abertawe, i sicrhau tystiolaeth ar yr amrywiaeth o welliannau iechyd i ddeiliaid tai sydd wedi derbyn mesurau a osodwyd gan Nyth. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio data cynllun Nyth sydd wedi'u

cysylltu'n ddienw â chofnodion iechyd arferol. Bydd yr ymchwil yn edrych ar y defnydd o'r gwasanaeth iechyd gan ddeiliaid tai cyn ac ar ôl gosod mesurau Nyth yn eu cartrefi. Bydd hefyd yn gwerthuso canlyniadau lles ehangach.

Roedd canfyddiadau'r flwyddyn gyntaf a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017 yn galonogol iawn. Mae tystiolaeth glir o'r buddiannau iechyd cadarnhaol y mae ein gosodiadau Nyth yn eu cael i'r rheini sydd â chyflyrau iechyd a oedd yn bodoli eisoes a'r effeithiau ataliol y maent yn eu cael ar y rheini nad oes ganddynt gyflwr meddygol. Roedd y canfyddiadau'n dangos effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd anadlol ac, i'r rheini sydd ag asthma, effaith amddiffynnol ar gyfer haint a llai o dderbyniadau achosion brys i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau cardiofasgwlaidd ac anadlol. Caiff adroddiadau blynyddol pellach eu cyhoeddi wrth i fwy o ddata gael eu dadansoddi.

Mae rhagor o newyddion da hefyd wedi dod i'r amlwg i ryw raddau o'r dystiolaeth annibynnol ar lefelau tlodi tanwydd a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r dystiolaeth yn dangos gostyngiad o 6%, gyda lefelau tlodi tanwydd yn gostwng o 29% yn 2012 i 23% yn 2016 ac 80,000 yn llai o aelwydydd mewn tlodi tanwydd.

Fodd bynnag, yn amlwg nid yw hyn yn gadael unrhyw le i fod yn hunanfodlon. Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru yn parhau i fod yn heriol. Ymhlith yr heriau mae'r ffaith bod ein stoc dai ymhlith yr hynaf a'r lleiaf thermol effeithlon yn Ewrop, cynnydd mewn prisiau ynni cyfanwerthol ac effaith newidiadau Diwygio Lles y DU. Er mwyn helpu i gymryd mwy o bobl allan o dlodi tanwydd, rwy'n buddsoddi dros £104 miliwn yn rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru dros y pedair blynedd nesaf i wella 25,000 yn rhagor o gartrefi.

Rwy'n hyderus bydd cynllun Nyth yn parhau i fod yn llwyddiannus yn 2017/18. Edrychaf ymlaen at weld llawer mwy o aelwydydd sydd wedi bod yn ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi yn cael budd o'r cymorth y mae'r cynllun yn ei ddarparu.

Lesley Griffiths AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig



Cynnwys

2 Rhagair gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

5 Crynodeb Gweithredol

6 Targedu a Marchnata

8 Partneriaethau

9 Cyngor a Chymorth
- Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau
- Gwasanaethau Gofal a Thrwsio
- Gostyngiad Cartrefi Cynnes
- Gwasanaethau Tân
- Cwmnïau Dŵr
- Gwasanaethau Cynghori Eraill

11 Pecynnau Gwella Ynni Cartref

12 Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

14 Gwella Effeithlonrwydd Ynni

16 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

17 Cyllid ECO

17 Boddhad Deiliaid Tai

18 Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

19 Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

20 Edrych i'r Dyfodol

Crynodeb Gweithredol

Nod cynllun Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru yw helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Yn 2016-17, buddsoddodd Llywodraeth Cymru dros £19.5 miliwn yng nghynllun Nyth er mwyn helpu aelwydydd incwm isel i leihau eu biliau tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd Nyth gyngor a chymorth diduedd am ddim i fwy na 13,300 o aelwydydd; cyfanswm o dros 98,000 o aelwydydd ers i'r cynllun ddechrau ym mis Ebrill 2011. Mae'r ffigur hwn 8,000 yn fwy na'r cyfanswm disgwyliedig o 90,000 o aelwydydd dros chwe blynedd y cynllun.

Gwnaed gwelliannau i gartrefi mwy na 5,500 o'r aelwydydd a gynorthwywyd eleni gyda chymysgedd o fesurau effeithlonrwydd ynni yn y cartref hefyd. Daw hyn â chyfanswm y cartrefi anoddaf i'w gwresogi sydd wedi elwa ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref i fwy na 29,000 o eiddo.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cyflawniadau cynllun Nyth o ran rhoi cyngor a chymorth i aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn 2016-17.

Yn 2016-17, roedd prif gyflawniadau cynllun Nyth fel a ganlyn:

- Cafodd dros 13,300 o aelwydydd gyngor diduedd am ddim ar arbed ynni
- Cafodd dros 5,500 o aelwydydd becyn gwelliannau ynni cartref, gan arbed £410 y flwyddyn ar eu biliau ynni ar gyfartaledd
- Cynnydd cyfartalog mewn sgôr effeithlonrwydd ynni o fwy na 35 o bwyntiau SAP
- Gostyngiad cyfartalog a fodelwyd o 15,521 o unedau ynni fesul aelwyd
- Arweiniodd Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau at gynnydd posibl o £482,000 yn y budd-daliadau y manteisiwyd arnynt.
- Cafodd yr holl osodiadau eu cwblhau gan osodwyr wedi'u lleoli yng Nghymru
- Cefnogodd y cynllun 43 o swyddi a phrentisiaethau yn uniongyrchol

Caiff cynllun Nyth ei reoli gan Nwy Prydain, sy'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, ar ran Llywodraeth Cymru.

Roedd y blaenoriaethau ar gyfer cynllun Nyth yn 2016-17 fel a ganlyn:

- Ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o sefydliadau ledled Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod manteision cynllun Nyth yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf

  Yn ystod y flwyddyn, bu'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gyda 298 o sefydliadau ledled Cymru (o gymharu â 281 yn 2015-16). Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau cenedlaethol, byrddau iechyd lleol, elusennau iechyd a chymdeithasol, a grwpiau cymunedol.

- Sicrhau cyllid ychwanegol i'r cynllun o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO), er mwyn helpu mwy o aelwydydd incwm isel yng Nghymru i gael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref

  Llwyddodd Nyth i sicrhau £3.9 miliwn o gyllid ECO i Gymru yn 2016-17, gan alluogi Nyth i gynorthwyo mwy o aelwydydd a chynyddu cyfanswm yr arbedion cyllid, tanwydd a charbon i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyllid a sicrhawyd o ECO yn gyfuniad o'r Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi (HHCRO) a'r Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO).

"Mam sengl ydw i ac, er fy mod i'n gweithio, allwn i byth â fforddio trwsio na phrynu boeler newydd nac inswleiddio'r atig. Mae'n gynllun gwych i deuluoedd incwm isel. Bydd yn cadw'r eiddo yn gynhesach am fwy o amser, a fydd yn arbed arian yn yr hirdymor."

Un o drigolion Conwy

Targedu a Marchnata

Nod gweithgarwch marchnata a chyfathrebu cynllun Nyth yw cyrraedd aelwydydd a fyddai'n cael budd o'r amrywiaeth o gyngor a chymorth sydd ar gael.

Mae hefyd yn anelu at godi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith sefydliadau partner sydd, yn eu tro, yn cyfleu manteision y cynllun ac yn cyrraedd pobl mewn angen.

Mae'r dull aml-haen yn anelu at fod wedi'i dargedu cymaint â phosibl ac mor gost effeithiol â phosibl ac mae'n ceisio cyrraedd cwsmeriaid targed a'u cefnogi i ddeall y cynllun ac yna i gysylltu â thîm cyngor Nyth.

Mae'r gweithgarwch marchnata craidd yn canolbwyntio ar waith y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau sy'n gweithredu ledled Cymru o fewn pedwar rhanbarth.

Ategir yr amrywiaeth o weithgarwch a gyflawnir gan y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau gan weithgarwch codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhelir ledled Cymru, ac ymgyrchoedd tactegol wedi'u targedu.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ffurfio ymgyrch gydlynus i gyrraedd aelwydydd cymwys yn uniongyrchol neu drwy wahanol sefydliadau partner sy'n helpu'r cynllun i gyrraedd y rheini sydd â'r angen mwyaf.

Dengys y siart isod ddadansoddiad o ymholiadau cychwynnol yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ymholiadau yn ôl Awdurdod Lleol



Dengys y siart isod y sianel farchnata a oedd yn cefnogi ymholiadau i Nyth. Mae nifer yr ymholiadau post uniongyrchol (36%) yn adlewyrchu'r ffaith bod y dull wedi'i dargedu wedi cael ei lywio gan waith dadansoddi data manwl a chymorth sylweddol gan awdurdodau lleol. Arweiniodd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau a gwaith y sefydliadau partner yn uniongyrchol at 20% o'r holl ymholiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r ffigurau yn debyg i ffigurau 2015-16, sy'n dangos dull marchnata cyson ac effeithiol.

Ategwyd y gweithgareddau wedi'u targedu hyn gan amrywiaeth o dechnegau codi ymwybyddiaeth gan gynnwys sylw yn y wasg, hysbysebion radio, cyfryngau cymdeithasol a deunydd hyrwyddo digidol.

Tlodi Tanwydd

Ystyrir bod deiliaid tai sydd angen gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd a bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% o'u hincwm yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Gofynnir i ddeiliaid tai sy'n cysylltu â Nyth nodi eu hincwm pan fyddant yn gwneud eu cais er mwyn i'r data gael eu defnyddio ochr yn ochr â chostau rhedeg[1] a fodelwyd ar gyfer eu haelwyd[1].

Mae lefel y tlodi tanwydd datganedig a ddangosir yn y siart isod yn dangos bod 79% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn byw mewn tlodi tanwydd (49% mewn tlodi tanwydd a 30% mewn tlodi tanwydd difrifol), sydd yn gyson â 2015-16.



- 36% Post Partneriaid
- 34% Argymhelliad Personol
- 20% Gweithgarwch Partneriaid
- 8% Gwefan ac E-bost
- 2% Y Wasg a Radio



- 49% Mewn Tlodi Tanwydd
- 30% Mewn Tlodi Tanwydd Difrifol
- 21% Ddim mewn Tlodi Tanwydd

Dylid trin y ffigurau hyn â gofal gan mai dim ond 64% o'r deiliaid tai a gysylltodd â Nyth yn 2016-17 a gytunodd i roi manylion ynghylch eu hincwm. Hefyd, lle rhoddwyd incwm y cartref, ni chynhaliwyd proses ddilysu i gadarnhau bod yr incwm a nodwyd yn gywir.

1. Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.

Partneriaethau

Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i gyfleu buddiannau'r cynllun a chyrraedd aelwydydd sydd angen cymorth.

Mae pedwar Rheolwr Datblygu Partneriaethau sy'n cydgysylltu cydberthnasau â sefydliadau partner gan gynnwys elusennau cenedlaethol, byrddau iechyd rhanbarthol, awdurdodau lleol a chymdeithasau cymunedol. Maent yn gweithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n helpu Nyth i gyrraedd yr aelwydydd sydd â'r angen mwyaf, er enghraifft:

- Awdurdodau Lleol
- Pobl sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol (e.e. Cymunedau yn Gyntaf a Banciau Bwyd)
- Pobl Hŷn (e.e. Age Cymru, Gofal a Thrwsio ac Age Connects)
- Pobl Ddi-waith (e.e. Canolfannau Byd Gwaith ledled Cymru)
- Teuluoedd â Phlant Ifanc (e.e. Achub y Plant, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg)
- Y Sector Iechyd (e.e. Byrddau Iechyd Lleol, meddygon teulu a chonsortia rhanbarthol)
- Pobl â salwch hirdymor (e.e. Macmillan, Y Gymdeithas Strôc, Cymdeithas Clefyd Parkinson a Chymdeithas Clefyd Alzheimer)
- Cymuned (e.e. Y Dref Werdd, Little By Little)
- Gwasanaethau cynghori (e.e. Cyngor ar Bopeth a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol)

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio ledled Cymru ac yn meithrin partneriaethau er mwyn cyrraedd aelwydydd drwy wasanaethau cynghori galw heibio, cyfarfodydd, sgyrsiau, digwyddiadau a chyhoeddiadau partneriaid. Caiff pob sefydliad partner ei gefnogi gyda chyflwyniadau a hyfforddiant er mwyn helpu staff a gwirfoddolwyr i gyfleu buddiannau Nyth yn gywir i ddefnyddwyr eu gwasanaethau. Yn ystod 2016-17, aeth y Rheolwyr Datblygu Partneriaethau i dros 750 o ddigwyddiadau gan gyrraedd mwy na 11,000 o gyfranogwyr.

Mae'r enghreifftiau canlynol o weithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn llwyddiannus yn dangos yr amrywiaeth o bartneriaid a sectorau y mae Nyth yn ymwneud â nhw:

Elusen – Macmillan

Mae Nyth wedi sefydlu partneriaeth â Macmillan. Mae Nyth a thîm gwybodaeth Macmillan wedi bod yn cydweithio i gynnal digwyddiadau gwybodaeth gyhoeddus mewn llyfrgelloedd ledled Gogledd Cymru. Mae'r digwyddiadau partneriaeth yn helpu'r ddau dîm i gyrraedd deiliaid tai a darparu gwybodaeth a chymorth hanfodol.

Awdurdod Lleol – Cyngor Sir Ceredigion

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gweithio gyda Nyth am nifer o flynyddoedd a cheisio gwneud y mwyaf o fuddiannau'r cynllun ledled y sir.

Cynhelir digwyddiadau allgymorth partneriaethau bob blwyddyn mewn ardaloedd wedi'u targedu yn y sir. Mae'r digwyddiadau hyn yn helpu'r ddau sefydliad i gyrraedd aelwydydd a sicrhau lefel uchel o ymwybyddiaeth o gynllun Nyth. Cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion gyfres o ymgyrchoedd postio uniongyrchol mewn partneriaeth â Nyth, gan gydnabod effeithiolrwydd y dull cyfathrebu wedi'i dargedu hwn.

Iechyd – Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Mae Nyth wedi gallu gweithio gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda a chwrdd â staff mewn pum ysbyty i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun. Mae'r Rheolwr Datblygu Partneriaethau hefyd wedi gweithio gyda Macmillan o fewn y Bwrdd Iechyd i ddarparu sesiynau hyfforddi ar y cynllun. Gwahoddwyd y Rheolwr Datblygu Partneriaethau i ddigwyddiad Hyrwyddwyr Cymunedol, cyfres o ddigwyddiadau Grŵp Cydweithredol y Bwrdd Iechyd, ac i gynnal digwyddiadau allgymorth cyhoeddus mewn clinigau ffliw a meddygfeydd lleol ledled y rhanbarth.

Trydydd Sector – Gofal a Thrwsio

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau yn gweithio gydag asiantaethau Gofal a Thrwsio ledled Cymru. Maent yn darparu sesiynau briffio i staff ac yn cydgysylltu digwyddiadau allgymorth cyhoeddus. Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio lleol yn atgyfeirio cwsmeriaid at gynllun Nyth fel rhan o'r portffolio o gymorth y maent yn ei ddarparu i bobl hŷn.

Mae Gofal a Thrwsio hefyd yn bartner atgyfeirio ar gyfer cynllun Nyth. Os nodir bod angen gwasanaethau Gofal a Thrwsio ar rywun, gan gynnwys eu gwasanaethau tasgmon a gweithiwr achos neu help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro, bydd tîm Nyth yn atgyfeirio'r cwsmer at asiantaeth Gofal a Thrwsio. Ceir manylion atgyfeiriadau eleni ar dudalen 10.

Cyngor a Chymorth

Yn 2016-17, rhoddodd Nyth gyngor wedi'i deilwra ac atgyfeiriadau at wasanaethau trydydd parti i fwy na 13,300 o aelwydydd.

Mae tîm cyngor Nyth yn casglu gwybodaeth gan bob cwsmer i nodi'r cyngor a chymorth mwyaf priodol i'w darparu. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar arbed ynni ac effeithlonrwydd dŵr, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim, a chyfeirio ac atgyfeirio at amrywiaeth o wasanaethau cymorth.

Cymorth gan Drydydd Partïon

Yn 2016-17, cafodd dros 9,300 o aelwydydd eu hatgyfeirio at un neu fwy o wasanaethau trydydd parti, neu argymhellwyd y dylent gysylltu â gwasanaethau o'r fath. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwiriadau hawl i fudd-daliadau – mae Canolfan Gynghori Riverside yn darparu gwasanaeth adolygu i gwsmeriaid Nyth i'w helpu i wneud y mwyaf o'u hincwm
- Gwasanaethau Gofal a Thrwsio – mae Gofal a Thrwsio yn darparu gwasanaeth tasgmon, gwasanaeth gweithiwr achos, help gyda grantiau ac offer gwresogi dros dro i gwsmeriaid cymwys
- Gostyngiad Cartrefi Cynnes – mae'r prif gyflenwyr ynni yn rhoi gostyngiad oddi ar filiau ynni cwsmeriaid cymwys
- Gwasanaethau Tân ac Achub – gall aelwydydd sy'n agored i niwed gael gwiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref drwy Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaethau cynghori eraill – caiff cwsmeriaid nad ydynt yn gymwys i gael un o becynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cyfeirio at Cymru Effeithlon neu'r Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni i gael rhagor o gymorth
- Cyngor ar reoli arian - mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar reoli dyled ac ymdrin ag incwm a thaliadau'n fwy effeithiol
- Cyngor ar dariffau ynni - mae Simply Switch yn rhoi cyngor annibynnol i gwsmeriaid ar y tariff a'r cyflenwr mwyaf effeithiol ar gyfer amgylchiadau'r cwsmer
- Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth – caiff cwsmeriaid cymwys eu hatgyfeirio at Western Power Distribution i gael cymorth ychwanegol os bydd toriad yn y cyflenwad trydan
- Cynlluniau fforddiadwyedd dŵr – mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at amrywiaeth o gynlluniau fforddiadwyedd a weithredir gan Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy. Mae Nyth yn gweithio gyda Severn Trent Water i sefydlu proses debyg yn y dyfodol

Aelwydydd sy'n cael Atgyfeiriad i Drydydd Parti/Argymhelliad





Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau

Atgyfeiriwyd 901 o aelwydydd i gael Gwiriad Hawl i Fudd-daliadau a nodwyd bod 275 o'r aelwydydd hynny yn gymwys i gael budd-daliadau newydd neu ychwanegol gwerth £1,828 fesul aelwyd, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd posibl o £482,500 yn y budd-daliadau y manteisiwyd arnynt eleni a thros £2.7 miliwn yn y chwe blynedd ers sefydlu cynllun Nyth.

Gwiriadau Hawl i Fudd-daliadau	
Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd	**901**
Nifer y deiliaid tai sy'n gymwys ar gyfer budd-daliadau newydd/ychwanegol	**275**
Cynnydd cyfartalog yn incwm blynyddol y cartref	**£1,828**

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio

Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn darparu amrywiaeth o wasanaethau er mwyn helpu i sicrhau bod gan bobl hŷn gartrefi diogel sy'n briodol i'w hanghenion. Gwnaeth Nyth gyfeirio ac atgyfeirio 1,067 o gartrefi at asiantaethau Gofal a Thrwsio yn 2016-17.

Gwasanaethau Gofal a Thrwsio	
Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd	**1067**
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Tasgmon	**59**
Nifer y deiliaid tai a gafodd Cymorth Grant	**8**
Nifer y deiliaid tai a ddefnyddiodd y gwasanaeth Gweithiwr Achos	**90**
Nifer y deiliaid tai a gafodd gyngor yn unig	**10**

Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Cafodd dros 4,200 o gwsmeriaid eu hatgyfeirio at eu cyflenwr ynni i gael y Gostyngiad Cartrefi Cynnes, o gymharu â 3,900 yn unig yn 2015-16. Mae Nyth wedi cael cadarnhad bod 382 o gwsmeriaid yn gymwys i gael y gostyngiad, sydd wedi arbed cyfanswm o £53,480.

Gostyngiad Cartrefi Cynnes	
Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd	**4270**
Nifer y deiliaid tai a gafodd y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	**382**
Gwerth y Gostyngiad Cartrefi Cynnes	**£53,480**

Gwasanaethau Tân ac Achub

Atgyfeiriodd Nyth 709 o gwsmeriaid at Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, a chafodd 358 ohonynt wiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref.

Gwasanaethau Tân ac Achub	
Nifer y deiliaid tai a Atgyfeiriwyd	**709**
Nifer y deiliaid tai a gafodd wiriad diogelwch tân ar gyfer y cartref	**358**

Cwmnïau Dŵr

Sefydlodd Nyth bartneriaeth â Dwr Cymru ym mis Rhagfyr 2015 a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ym mis Hydref 2016. Mae Nyth yn atgyfeirio cwsmeriaid at gynlluniau fforddiadwyedd y cwmnïau Dŵr gan gynnwys HelpU, Dŵr Uniongyrchol, Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid a Water Sure.

Yn ystod 2016-17, atgyfeiriwyd 590 o gwsmeriaid gyda 77 yn cael budd o gymorth a gostyngiad ôl-ddyledion, ac arbedion posibl o dros £14,300.

Cwmnïau Dŵr	
Nifer y deiliaid tai a atgyfeiriwyd	**590**
Deiliaid tai yn cael budd o HelpU	**68**
Deiliaid tai yn cael budd o Dŵr Uniongyrchol	**3**
Deiliaid tai yn cael budd o'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid	**3**
Deiliaid tai yn cael budd o Water Sure	**3**

Gwasanaethau Cynghori Eraill

Cyfeiriwyd cwsmeriaid nad oeddent yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Nyth ond a oedd yn debygol o fod yn gymwys ar gyfer ECO at y Gwasanaeth Cyngor ar Arbed Ynni (ESAS). Atgyfeiriwyd y cwsmeriaid hynny nad oeddent yn cael budd-daliadau at Cymru Effeithlon i gael rhagor o gymorth. Yn ystod y flwyddyn, atgyfeiriwyd 1,576 o aelwydydd.

Gwasanaethau Cynghori Eraill	
Nifer yr Aelwydydd a Atgyfeiriwyd	**1,576**

"Mae'n wych gwybod bod y cymorth hwn ar gael i'r sawl sydd ei angen"

Un o drigolion Sir Fynwy

Pecynnau Gwella Ynni Cartref

Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig y cyfle pwysicaf i wella eiddo, lleihau biliau ynni a helpu aelwydydd i oresgyn tlodi tanwydd.

Caiff cwsmeriaid sy'n cysylltu â Nyth i gael cyngor a chymorth eu hasesu i weld a ydynt yn gymwys i gael pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim a all gynnwys boeler newydd, system gwres canolog a / neu ddeunydd inswleiddio.

Y meini prawf ar gyfer gwelliannau cartref yw bod aelod o'r aelwyd yn cael budd-dâl sy'n dibynnu ar brawf modd a bod y cartref yn eiddo preifat neu'n cael ei rentu â sgôr ynni ddangosol o E, F neu G.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd Nyth mewn partneriaeth â Rhentu Doeth Cymru i sicrhau bod landlordiaid yr holl eiddo rhent wedi'u cofrestru cyn derbyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref.

Caiff asesiad tŷ cyfan ei gwblhau gan aseswr cwbl gymwysedig sy'n cadarnhau cymhwysedd deiliad y tŷ ac yn nodi'r mesurau mwyaf priodol a chosteffeithiol ar gyfer yr eiddo a'r cwsmer. Mae tîm Nyth yn sicrhau bod yr holl ganiatadau a chydsyniadau gofynnol (landlordiaid, cynllunio ac ati) a gofynion trydydd partïon (cysylltiadau nwy, cael gwared ar asbestos ac ati) yn cael eu cwblhau cyn y gwaith gosod.

Caiff yr holl wasanaethau gosod eu darparu gan rwydwaith o osodwyr yng Nghymru, o dan oruchwyliaeth a rheolaeth tîm Nyth. Cynhelir archwiliad o'r gwaith unwaith y bydd tîm Nyth wedi derbyn cadarnhad bod y pecyn o fesurau wedi'i osod. Os bydd arolygydd Nyth yn nodi unrhyw ddiffygion yn y gwaith, byddant yn sicrhau bod unrhyw waith adferol sydd ei angen yn cael ei gwblhau'n gyflym ac yn effeithiol.

Caiff pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth eu cynllunio ar gyfer eiddo unigol felly nid oes pecyn safonol o fesurau, ond gallent gynnwys boeler newydd, system gwres canolog, inswleiddio'r atig neu inswleiddio waliau ceudod a gall rhai ohonynt gynnwys technolegau mwy diweddar fel pympiau gwres ffynhonnell aer ac inswleiddio waliau allanol.

Systemau gwres canolog yw'r prif waith a wneir gan gynllun Nyth o hyd. Mae'r gosodiadau hyn yn cynnwys sawl mesur e.e. boeler, rheiddiaduron, thermostat ar gyfer ystafelloedd, rheolyddion gwres, falfiau rheiddiaduron thermostatig a phibellau lle y bo angen.



Nodweddion Aelwydydd ac Eiddo

Nod Nyth yw dod â phobl allan o dlodi tanwydd lle y bo'n bosibl.

Ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar filiau ynni yn byw mewn tlodi tanwydd ac ystyrir bod aelwydydd sy'n gwario mwy nag 20% yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.

Gofynnir i ddeiliaid tai nodi eu hincwm pan fyddant yn gwneud eu cais er mwyn i'r data hyn gael eu defnyddio ochr yn ochr â chostau rhedeg a fodelwyd[2] ar gyfer eu haelwyd i amcangyfrif a ydynt yn byw mewn tlodi tanwydd.

Roedd 56.3% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd cyn cael gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Mae hyn yn cynnwys 20.3% o aelwydydd a oedd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol.

Bu Nyth yn arbennig o effeithiol o ran cyrraedd aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd drwy ei feini prawf cymhwysedd a'i bwyslais ar dargedu aelwydydd sy'n agored i niwed o gymharu â chynlluniau blaenorol lle yr amcangyfrifwyd bod llai na 30% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o ddeiliadaeth ar gyfer aelwydydd a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref; roedd 72% yn eiddo i berchen-feddianwyr a 28% wedi'u rhentu'n breifat.



72% Perchen-feddiannwr

28% Rhentu'n Breifat



43.7% Ddim mewn Tlodi Tanwydd

36% Mewn Tlodi Tanwydd

20.3% Mewn Tlodi Tanwydd Difrifol

"Roeddem yn ei chael hi'n anodd prynu gwres ar ein pensiwn ni. Bu Nyth o gymorth mawr iawn i ni a rŵan mae gennym gartref cynnes"

Un o drigolion Conwy

2 Defnyddir data a fodelwyd yn hytrach na gwariant gwirioneddol ar gyfer costau rhedeg yr aelwyd gan fod llawer o gwsmeriaid yn diffodd eu gwres er mwyn rheoli eu costau ynni.

Mae'r siart isod yn dangos dadansoddiad o'r deiliaid tai a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl eu hoedran. Roedd dros hanner y deiliaid tai o oedran gweithio (50.2% rhwng 24 a 59 oed) gyda chynnydd bach yn y rhai rhwng 60 a 69 oed (19% o gymharu â 18.1% yn 2015-16) a thros 70 oed (29.3% o gymharu â 29% yn 2015-16).



1.5% O dan 24 oed
19% 60-69
50.2% 24-59
29.3% 70 oed a hŷn

Dangosir dadansoddiad o ddosbarthiad trefol a gwledig[3] cwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn y siart isod. Nodir bod 66% o'r aelwydydd yn byw mewn ardaloedd trefol a 34% yn byw mewn ardaloedd gwledig (cynnydd bach o gymharu â 32.7% yn 2015-16). Mae hyn yn adlewyrchu dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru.



66% Trefol
34% Gwledig

Nid oedd 23.8% o gwsmeriaid wedi'u cysylltu â'r grid nwy cyn i fesurau gael eu gosod o dan y cynllun, sy'n gynnydd bach o gymharu â 22.2% yn 2015-16, fel y dangosir yn y siart isod.



76.2% Ar y Grid Nwy
23.8% Ddim ar y Grid Nwy

Dangosir dadansoddiad o aelwydydd sydd wedi cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl math o eiddo yn y graff isod. Eiddo teras (canol a phen teras) yw'r math o eiddo a gaiff ei drin amlaf o dan y cynllun o hyd, gan gyfrif am 39.8% o'r holl waith gosod. Fflatiau a dderbyniodd y nifer leiaf o osodiadau ar draws y cynllun; fodd bynnag, mae'r mathau hyn o eiddo yn dueddol o fod yn fwy effeithlon o ran ynni na thai gan fod anheddau eraill uwch eu pennau ac wrth eu hymyl yn aml yn eu cysgodi ac yn eu hatal rhag colli gwres.



29.1% Canol teras
9% Tŷ ar wahân
29% Tŷ Semi
10.7% Diwedd Teras
16% Byngalo
6.2% Fflat

3 Mae'r diffiniadau o Drefol a Gwledig yn seiliedig ar ddosbarthiadau a dderbynnir sydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gwella effeithlonrwydd ynni

Mae gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref Nyth wedi sicrhau arbedion amcangyfrifedig o £410 y flwyddyn fesul aelwyd ar filiau ynni ar gyfartaledd, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd mewn tlodi tanwydd.

Mae'r siartiau hyn yn dangos dadansoddiad fesul band SAP ar gyfer aelwydydd cyn ac ar ôl iddynt gael pecynnau gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Roedd pob eiddo lle y gosodwyd mesurau yn aelwyd effeithlon iawn o ran ynni – sgôr E (10.1%), F (46.6%) neu G (43.3%). Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd yng nghanran yr eiddo â sgôr G, o gymharu â 2015-16, sef yr eiddo mwyaf aneffeithlon o ran ynni.



Ar ôl gosod y pecyn o welliannau ynni cartref, cynyddodd sgôr 80% o eiddo i sgôr rhwng B a D a chynyddodd sgôr 17% arall o eiddo i sgôr E. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r eiddo a gafodd welliannau yn parhau i fod â sgôr E i G am na fu'n bosibl dangos y byddai'r mesurau mwy cynhwysfawr a oedd yn ofynnol yn sicrhau gwerth am arian. Mewn rhai achosion, mae'r sgôr SAP wedi'i gostwng hyd yn oed lle mae tanwydd solet wedi'i osod yn lle olew/LPG gan fod tanwydd ar gael iddynt yn rhad neu am ddim.

Mae cynllun Nyth yn cyfrifo effeithiau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gartrefi gan ddefnyddio sgôr RdSAP[4]. Mae'r feddalwedd yn mesur sgôr SAP cyn ac ar ôl i fesurau addas gael eu gosod. Y nod yw gosod pecyn o fesurau er mwyn cynyddu sgôr ynni eiddo tuag at sgôr SAP o C lle y bo'n bosibl, pan fo'n gosteffeithiol i wneud hynny. Caiff y mesurau gwirioneddol a osodir eu hailfodelu er mwyn ystyried unrhyw newidiadau i'r pecyn gwreiddiol o ganlyniad i broblemau technegol neu am fod cwsmeriaid wedi newid eu meddwl.



Mae aseswr Nyth yn nodi sgôr SAP gyfredol yr eiddo a'r sgôr SAP bosibl pe bai pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn cael ei osod. Mae eiddo band A yn defnyddio ynni'n effeithlon iawn a'r rhain fydd â'r costau rhedeg isaf; mae gan eiddo band G sgôr effeithlonrwydd ynni wael sy'n golygu y bydd yn costio mwy i'w gwresogi a'u goleuo i'r un safon.

Mae budd-daliadau yn seiliedig ar ganlyniadau a fodelwyd a bydd y gostyngiadau a'r arbedion gwirioneddol yn dibynnu ar ymddygiad y cwsmer unigol. Yn aml, nid yw aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn gwresogi eu cartrefi yn effeithiol ac felly, mewn rhai achosion, bydd y buddiannau i'r cwsmer yn cynnwys eiddo mwy cyfforddus a gwell lles wrth i'r cartref gael ei wresogi'n fwy effeithiol, yn hytrach na gostyngiad mewn biliau tanwydd.

4 **RdSAP a SAP** – Y Weithdrefn Asesu Safonol yw methodoleg Llywodraeth y DU ar gyfer asesu a chymharu perfformiad ynni a pherfformiad amgylcheddol anheddau. Cyflwynwyd SAP data gostyngol (RdSAP) yn ddiweddarach fel ffordd fwy costeffeithiol o asesu anheddau a oedd yn bodoli eisoes.

Mae'r siart yn dangos dadansoddiad o arbedion ynni a fodelwyd fesul aelwyd lle y gosodir mesurau yn ôl awdurdod lleol, gydag arbediad cyfartalog amcangyfrifedig o £410 y flwyddyn neu 15,521 megajoule y flwyddyn. Mae hefyd yn dangos dadansoddiad yn ôl gostyngiadau mewn allyriadau carbon drwy gydol oes yr aelwydydd sy'n cael pecyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref. Yn ôl yr hyn a fodelwyd, bydd cyfanswm yr allyriadau oes yn gostwng o 311k tCO gan amrywio o 3.4k tCO yng Nghastell-nedd Port Talbot i dros 34k tCO yn Abertawe a Sir Gaerfyrddin.

Awdurdod Lleol	Cyfanswm yr Arbedion CO2 Oes Gyfan (tCO)	Arbedion Cyfartalog o ran y Defnydd o Ynni (megajoules)	Arbedion Blynyddol Cyfartalog o ran Cost Tanwydd
Abertawe	34661	14375	£354
Blaenau Gwent	10678	16650	£409
Bro Morgannwg	8198	13833	£359
Caerdydd	18429	13636	£341
Caerffili	16931	15556	£381
Casnewydd	15593	17821	£379
Castell-nedd Port Talbot	3460	14795	£388
Ceredigion	11840	17502	£535
Conwy	18525	19427	£402
Gwynedd	9252	11701	£368
Merthyr Tudful	18264	16688	£516
Pen-y-bont ar Ogwr	14784	15258	£355
Powys	17268	14894	£430
Rhondda Cynon Taf	13333	13936	£512
Sir Benfro	14812	13143	£383
Sir Ddinbych	12022	15429	£411
Sir Gaerfyrddin	34379	17835	£455
Sir Fynwy	7779	16737	£387
Sir y Fflint	9782	12872	£410
Torfaen	6086	14377	£388
Wrecsam	5790	13888	£485
Ynys Môn	9660	16554	£437
Cyfanswm	**311526**	**15521**	**£410**

"Rydym wedi bod heb wres am y 12 mlynedd diwethaf. Ni allaf ddweud wrthych y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i'n bywydau"

Un o drigolion Ynys Môn

Buddsoddiad Llywodraeth Cymru

Yn ystod 2016-17, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £19.5 miliwn drwy fesurau Nyth.

Mae'r graff yn dangos canran y gwaith gosod a gwblhawyd yn ôl ardal awdurdod lleol.



Mae'r siart hon yn dangos y gwariant cyfartalog ar welliannau effeithlonrwydd ynni cartref yn ôl awdurdod lleol



Cyllid ECO

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) yn rhan o rwymedigaethau effeithlonrwydd ynni domestig Llywodraeth y DU ar gyfer cyflenwyr ynni.

Parhaodd Nyth a Llywodraeth Cymru i gydweithio'n agos er mwyn sicrhau'r cyllid ECO mwyaf posibl ar gyfer Nyth. Llwyddodd Nyth i sicrhau £3.9 miliwn o gyllid ECO i Gymru yn 2016-17, gan alluogi Nyth i gynorthwyo mwy o aelwydydd a chynyddu cyfanswm yr arbedion cyllid, tanwydd a charbon i aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cyllid a sicrhawyd gan ECO yn gyfuniad o'r Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi (HHCRO) a'r Rhwymedigaeth Lleihau Allyriadau Carbon (CERO).

Boddhad Deiliaid Tai

Mae boddhad cwsmeriaid â Nyth wedi bod yn gyson uchel drwy gydol oes y cynllun. Yn 2016-17, nododd 99.1% o gwsmeriaid eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau cynghori a gwaith gosod a ddarparwyd gan Nyth.

Caiff pob deiliad tŷ sy'n derbyn cyngor gan y cynllun arolwg drwy'r post a gofynnir iddo sgorio'r gwasanaeth yn ôl ei foddhad. Caiff boddhad deiliaid tai ei gofnodi a'i reoli, gan gynnwys unrhyw gwynion sy'n ymwneud â phob cam o daith y cwsmer.

Mae'r siartiau isod yn dangos bod nifer y cwynion a gafwyd yn cynrychioli dim ond 1.9% o'r holl gwsmeriaid a gafodd becyn gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref a bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid (99.1%, i fyny o 98.9% yn 2015-16) yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth gosod a ddarparwyd.





Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Nod Nyth yw cyrraedd pob rhan o gymdeithas ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau i sicrhau y gall pawb ddefnyddio'r cynllun.

Mae Nyth yn cydnabod bod pobl yr ystyrir eu bod wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yn aml yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau cymorth fel Nyth yn uniongyrchol. Felly, mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn gweithio gyda phartneriaid a all helpu i gyrraedd cartrefi a fyddai'n cael budd o'r cymorth sydd ar gael.

Yn ystod y flwyddyn, bu Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn gweithio'n agos gyda Cyngor ar Bopeth, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf ledled Cymru. Bu'r Rheolwyr hefyd yn gweithio gyda fforymau cynhwysiant ariannol, gwasanaethau cyngor ar ddyled a Banciau Bwyd. Mae cynllun Nyth wedi'i integreiddio o fewn y cymorth hanfodol y mae'r gwasanaethau lleol hyn yn ei ddarparu ac mae'n cyfrannu at les ariannol teuluoedd mewn angen.

Mae Nyth hefyd yn gweithio gydag Age Cymru, Age Connects ac amrywiaeth o grwpiau lleol i sicrhau y gall pobl hŷn gael gafael ar y cynllun. Gall yr asiantaethau hyn atgyfeirio cwsmeriaid yn uniongyrchol at Nyth ac maent yn aml yn gwneud ceisiadau ar eu rhan.

Drwy gydol 2016-17, mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth wedi datblygu partneriaethau cyfredol a sefydlu partneriaethau newydd o fewn y sector iechyd gan gydnabod yr effaith y gall cartref oer ei chael ar iechyd person. Mae Nyth yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol, ysbytai cymuned, timau rhyddhau a meddygfeydd i sicrhau y caiff pobl â chyflyrau iechyd penodol eu cefnogi.

Mae'r Rheolwyr Datblygu Partneriaethau hefyd wedi sefydlu partneriaethau ag elusennau yn y sector iechyd gan gynnwys Macmillan, Tenovus, Fibromyalgia Cymru a Chymdeithas Clefyd Alzheimer, a sefydliadau gofalwyr ledled Cymru.

Mae Nyth yn darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol gan gynnwys fformatau hawdd i'w darllen, braille, sain, print bras, digidol ac mewn nifer o ieithoedd er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r cynllun. Mae Rheolwyr Datblygu Partneriaethau Nyth yn ceisio sicrhau bod y cymorth cyfathrebu hwn ar gael drwy bartneriaid gan gynnwys Action on Hearing Loss, Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru, Sight Cymru, Anabledd Dysgu Cymru a Disability Can Do.

"Byddwn yn argymell y cynllun i unrhyw un am fod fy nghartref bellach mor gynnes a chlyd"

Un o drigolion Caerffili

"Mae fy ngwraig a minnau yn bensiynwyr mewn iechyd gwael felly mae'r boeler cyfunol a'r rheiddiaduron newydd a osodwyd yn fendith"

Un o drigolion Rhondda Cynon Taf

Sicrhau Buddiannau Ychwanegol

Wrth gyflawni nodau cynllun Nyth, mae'r tîm yn cynnal nifer o fentrau ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cyflogaeth.

Mae Dosbarth Busnes yn rhaglen Busnes yn y Gymuned a ddarperir gan Gyrfa Cymru sy'n creu partneriaethau effeithiol a chydweithredol rhwng busnesau ac ysgolion sy'n fuddiol i'r naill a'r llall.

Cydweithiodd tîm Nyth ag Ysgol Uwchradd Abertyleri lle y cafodd nifer o weithgareddau eu cefnogi o fewn yr ysgol gan gynnwys:

- Mentora carfan o fechgyn 15-16 oed (Blwyddyn 11)
- Cyflwyno sesiwn Labordy Gyrfaoedd i grŷp o fyfyrwyr Blwyddyn 11
- Hwyluso sesiwn Arfer Gorau Gwasanaeth Cwsmeriaid gyda'r tîm gweinyddu a busnes
- Cynnal gweithdy Iechyd a Diogelwch ar gyfer y staff gofalu sy'n gweithio ledled campysau'r ysgol

Roedd y digwyddiad CRE8 yn benllanw ar gyfres o gystadlaethau Dosbarth Busnes wedi'u hanelu at wella dealltwriaeth disgyblion ysgol o'r byd gwaith a dewisiadau gyrfa.

Yn ystod camau blaenorol, gofynnwyd i fyfyrwyr gynllunio a chreu cynnyrch effeithlon o ran ynni o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ledled y clwstwr o ysgolion Dosbarth Busnes.

Cynhaliwyd y rownd derfynol yn y Senedd ac adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd ym mis Ionawr 2017.

Dywedodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig:

"Rwy'n falch iawn bod tîm Nyth Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru wedi gallu cynnal cystadleuaeth ryng-ysgolion CRE8 eleni. Mae rhaglen ragorol Dosbarth Busnes yn meithrin partneriaethau parhaol rhwng busnesau ac ysgolion yng Nghymru ac yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Pwy a ŷyr, efallai y bydd y digwyddiad hwn yn ysbrydoli rhai i ystyried gyrfa yn niwydiant effeithlonrwydd ynni Cymru, hyd yn oed, sef diwydiant sy'n tyfu."

Ym mis Tachwedd 2016, cefnogodd tîm Nyth Wythnos Weithredu Cymru, a gynhaliwyd gan Busnes yn y Gymuned. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn ystod yr wythnos er mwyn helpu i gefnogi pobl sydd naill ai mewn perygl o fod yn ddigartref neu a oedd yn ddigartref. Cymerodd tîm Nyth ran yn y gweithgareddau a darparodd weithdai CV a chyfweliad yn yr YMCA yng Nghaerdydd.



"Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i'n gymwys ... bydd hi'n braf cael tyˆ cynnes unwaith eto. Mae'n gynllun gwych" Un o drigolion Blaenau Gwent

Edrych i'r dyfodol

Bydd cynllun Nyth Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru yn ei seithfed flwyddyn yn 2017-18. Bydd y cynllun yn parhau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru ac yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i sicrhau bod y cynllun yn cyrraedd yr aelwydydd hynny sydd â'r angen mwyaf
- Datblygu gwaith ymgysylltu â'r sector iechyd ymhellach i sicrhau bod y cynllun yn cael mwy o effaith ar gyfer pobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd sydd yn aml yn gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer neu laith
- Sicrhau cyllid ychwanegol i'r cynllun o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, er mwyn helpu mwy o aelwydydd incwm isel i gael budd o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref
- Parhau i gyfrannu at strategaethau ynni a thlodi Llywodraeth Cymru
- Gweithredu yn unol â'r gwerthoedd a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys cydweithredu, integreiddio ac atal

Caiff y cynllun Nyth ei ddarparu gan dîm ymroddedig o staff a phrentisiaid a rhwydwaith o fusnesau bach a chanolig wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd Nyth yn parhau i ddatblygu'r timau contractwyr i fod yn genhadon STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg). Bydd hyn yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer y tîm o staff ac yn cefnogi rhaglen Budd Cymunedol Nyth. Bydd gan Nyth fynediad at rwydwaith ehangach o ysgolion i hyrwyddo pynciau a gweithgareddau STEM i baratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Bydd Nyth hefyd yn parhau â'i bartneriaeth â rhaglen Dosbarth Busnes gan Busnes yn y Gymuned gan weithio gydag Ysgol Uwchradd Abertyleri a chefnogi disgyblion a staff a rhannu arferion gorau.

"Roedd pob cam mor ddi-straen ac roedd eich staff yn ddymunol ac yn gwrtais" Un o drigolion Sir y Fflint

"Mae'n wych gwybod bod y cymorth hwn ar gael i'r sawl sydd ei angen"
Un o drigolion Sir Fynwy